CLIMATE, FAIRTRADE AND YOU

CHOOSE THE WORLD YOU WANT

FAIRTRADE

GWASANAETH UWCHRADD
BYWYD THEOBROMA CACAO

Petai eich siocled yn gallu siarad… ble mae wedi bod? Â phwy y mae wedi cwrdd â nhw? A bywyd pwy wnaeth effeithio arno? Bydd y gêm chwarae rôl hon yn ennyn dysgwyr i feddwl am fywyd cynnyrch a'r effaith y gall ei gael y sawl sy'n rhan o'i gynhyrchu. A all eich dewisiadau newid hyn?

AMCANION DYSGU:

- Mae dysgwyr yn deall ein bod wedi'n cysylltu â'r sawl sy'n tyfu ein bwyd
- Mae dysgwyr yn ystyried cadwyn gyflenwi cynnyrch

BYDD ANGEN ARNOCH:

Dau ddysgwr i chwarae rolau Theobroma a Matt, y cyflwynydd teledu.

Os yw eich gwasanaeth yn un rhithwir, gallech gael y cymeriadau yn y sesiwn chwarae rôl mewn mannau gwahanol, gan sgwrsio drwy gamera, neu gael dau blentyn yn yr ysgol yn chwarae'r cymeriadau.

SGRIPT YR ATHRO

Yn ystod Pythefnos Masnach Deg, rydym yn mynd i feddwl am y byd rydym am ei gael, a sut gall ein dewisiadau helpu i lunio hyn.

Mae llawer o'r cynnyrch rydym yn eu mwynhau'n teithio milltiroedd lawer i'n cyrraedd ni. Gall bar o siocled fod yn trît bach i ni, ond i gannoedd ar filoedd o ffermwyr, coco yw eu bywoliaeth, ac mae eu ffawd yn ymwneud â chodiad a gostyngiad yn y pris a delir am eu cynnyrch.

Mae bywyd yn anodd i gynhyrchwyr coffi, bananas, coco a llawer mwy o gynnyrch rydym yn eu prynu a'u mwynhau. Gall newidiadau bach ym mhrisiau cynnyrch gael effaith anferthol ar eu gallu i ddiwallu eu hanghenion. Efallai y bydd yn rhaid iddynt ddewis rhwng darparu bwyd maethol i'w teuluoedd, cael meddyginiaeth pan ydynt yn dost a thalu tuag at ddiogelu eu cartrefi a'u ffermydd rhag y newidiadau rydym yn eu gweld yn ein hinsawdd.

Rydym i gyd yn gwybod pa mor bwysig yw gofalu am ein hamgylchedd. Mae popeth ar y blaned yn dibynnu ar natur am ei anghenion. Am yr aer rydym yn ei anadlu, y dŵr rydym yn ei yfed, y bwyd sy'n dod o'r planhigion sy'n tyfu yn y pridd y mae angen i ni ofalu amdanynt, coed i ddarparu cysgod a thywydd i dyfu bwyd a chadw'n gynnes.

CLIMATE, FAIRTRADE AND YOU

CHOOSE THE WORLD YOU WANT

FAIRTRADE

Theobroma Cacao yw'r ***enw*** *Lladin am y coed o ble y daw coco. Mae'n golygu 'bwyd y duwiau'.* ***Cacao*** *yw enw'r codau a* ***choco*** *yw enw'r ffa hynny ar ôl cael eu cynaeafu o'r codau, ond defnyddir y ddau air yn gyffredinol am y ddau beth.*

SGRIPT CHWARAE RÔL

Matt	Croeso i sioe heno. Fy enw i yw Matt Chunk. Hoffwn groesawu eich gwestai gwadd arbennig, Mr Theobroma Cacao.
Theo	Diolch, Matt. Mae'n bleser bod yma yn y stiwdio. Gallwch fy ngalw'n Theo.
Matt	Felly, Theo, rwy'n deall eich bod wedi teithio ffordd bell i fod yma gyda ni yn y stiwdio heno?
Theo	Mae hynny'n wir, Matt, Rwyf wedi dod o Sierra Leone yng Ngorllewin Affrica. Ond yn wreiddiol, daeth y teulu cacao o Dde America. Ond, wrth gwrs, rydym wedi lledaenu dros y rhanbarthau trofannol. Rydym yn dwlu ar y tywydd cynnes. Rydym bellach dros Dde America a Gorllewin Affrica yn benodol.
Matt	Mae hynny'n ddiddorol iawn, Theo. Felly, rydych wedi teithio llawer?
Theo	Do.
Matt	Allwch chi ddweud ychydig wrthym am eich bywyd cynnar?
Theo	Dechreuais i ar fferm mewn lle bach o'r enw Gorahun. Mae mor brydferth yno. Mae ar gyrion Coedwig Law Gola. Nid yn unig cacao fel fi sy'n tyfu yna, ond o amgylch y fferm mae coed mango a choed papaya sy'n fy nghysgodi. Mae'n waith sychedig tyfu i fyny yn y goedwig ond mae'r glaw'n dod bob blwyddyn ac rydym yn byw am amser hir iawn yno yn y goedwig.
Matt	Mae hynny'n swnio fell le prydferth a hapus.
Theo	Ah, prydferth ydy, Ond nid yn hapus bob tro. Yn anffodus, mae'r ffermwyr sy'n gofalu amdanom yn aml yn drist ac weithiau mae angen bwyd arnynt. Byddent yn siarad am brisiau isel llawer. Dros y blynyddoedd, gwelsom lawer o'r cacao yn mynd, a hefyd y mango a'r papayas a phopeth arall. Weithiau byddai'r coed yn diflannu a byddai cnydau'n cael eu plannu'n lle, neu dyllau'n cael eu cloddio yn y ddaear a phobl yn chwilio am bethau o'r enw 'mwynau' yn y tyllau. Mae wedi gwneud bywyd llawer yn anoddach i'r rhai ohonom oedd ar ôl. Ni wnaeth y cnydau a'r tyllau unrhyw beth i arafu'r glaw a byddai'n rhedeg mor gyflym tuag atom. Weithiau byddai'r coed enfawr a oedd yn rhoi cysgod i ni hefyd yn diflannu. Daeth yn waith anodd i ni sefyll yn dal a chynhyrchu ein cacao.
Matt	Oh na. Mae hynny'n swnio'n anodd.
Theo	Oedd. Ac yna gwnaeth rhai o'r ffermwyr adael. Gwnaethant siarad am y ddinas. Un dydd, aethant. Nid oeddent ein heisiau mwyach. Roedd yn rhy anodd iddynt.
Matt	A wnaeth hynny ddigwydd i chi?
Theo	Na, nid fi. Gwnaeth ein ffermwyr aros a gofalu amdanom. Ond roedd hi'n anodd. Weithiau, gwnaethant roi cynnig ar bethau gwahanol er mwyn ennill mwy o arian. Am sbel, gwnaethant ein chwistrellu â rhywbeth a oedd yn arogli'n afiach er mwyn ein gwneud yn gryf. Ond gwnaeth ein ffrindiau, yr adar a'r anifeiliaid bychain yn sâl. Felly gwnaethant stopio hynny.

CLIMATE, FAIRTRADE AND YOU

CHOOSE THE WORLD YOU WANT

FAIRTRADE

Matt	A wnaeth pethau wella?
Theo	Na, nid bryd hynny.
Matt	Oh na.
Theo	Roedd bywyd mor anodd iddynt. Ac un flwyddyn, ni ddaeth y glaw.
Matt	Ddim o gwbl?
Theo	Na, nid am fisoedd ond erbyn hynny roedd hi'n rhy hwyr. Roedden ni, y cacao, i gyd yn sâl. Gwnaethom ein gorau glas ond nid oedd gennym yr egni i gynhyrchu ein codau'r flwyddyn honno.
Matt	Beth ddigwyddodd?
Theo	Roedd y ffermwyr wiry n poeni. Gwnaethom werthu rhai o'u hofferynnau a thynnu eu merched allan o'r ysgol. Aeth y ffermwr gwrywaidd i'r ddinas gan adael gweddill y teulu i ofalu amdanom.
Matt	A ddaeth y glaw yn y tymor glawog nesaf?
Theo	Do, ond roedd hi'n gynnes iawn y tymor sych nesaf a gwnaeth rhai ohonom ddal clefyd o'r enw cod du. Roeddem yn hynod sâl. Roedd ein codau'n ddiwerth y flwyddyn honno. Roedd y ffermwyr yn poeni'n ofnadwy. Byddant yn dod i edrych arnom drwy'r amser, gan obeithio nad oeddem yn gwaethygu gan wneud yr hyn yr oeddent yn gallu er mwyn atal y lledaeniad. Ond nid flwyddyn yn unig oedd hyn, y flwyddyn nesaf roedd hi'n gynnes iawn a death y glaw yn hwyr. A'r flwyddyn ar ôl hynny. Gwnaethom sylweddoli bod y tymhorau fel yr oeddent wedi newid. Mae hynny'n ei wneud yn anodd i ni gynhyrchu ac mae'n gwneud bywyd yn anodd iawn i'r ffermwyr sy'n gofalu amdanon ni. Maent wedi bod gyda ni ers blynyddoedd lawer, ond rwy'n poeni y byddan nhw hefyd am fynd i'r ddinas.
Matt	Dyma stori hynod drist sy'n peri pryder. A yw'r stori'n gwella?
Theo	Gall wella. Er mwyn i hynny ddigwydd, mae angen i'r ffermwyr allu gofalu droson ni, cynllunio ar gyfer y newidiadau yn y tywydd ac ar gyfer y dyfodol a gallu diwallu eu hanghenion beunyddiol hefyd.
Matt	Sut mae hynny'n digwydd?
Theo	Mae hynny'n dibynnu ar pryd maent yn gwerthu'r coco rydym yn ei gynhyrchu.
Matt	Sut felly?
Theo	Pan fydd ffermwyr yn gwerthu eu coco, am bris sy'n talu eu costau ac sy'n gadael tipyn yn weddill, mae'n rhoi'r cyfle iddynt adeiladu ar gyfer y dyfodol. Gallant fforddio defnyddio'r arferion ffermio gorau i'n diogelu rhag y tywydd a chlefydau a diogelu eu hunain rhag digwyddiadau annisgwyl. Os ydynt yn cael hyn, ychydig ar y tro, flwyddyn ar ôl blwyddyn, gallant addasu i'r heriau maent yn eu hwynebu ac ymdopi â'r hyn sy'n dod.
Matt	Gwelaf i. Sut gallaf sicrhau bod hyn yn digwydd?
Theo	Gallwch ddewis. Mae eich dewisiadau chi'n gwneud y gwahaniaeth. Mae gan brynwyr ddewis bob tro maent yn prynu bar siocled. Gallwch ddewis siocled o goco

	sydd wedi cael ei werthu am bris isel iawn NEU gallwch ddewis siocled o goco sydd wedi cael ei werthu am bris digon uchel i ddiwallu anghenion y ffermwyr. Gallwch wneud dewis sy'n golygu bod ffermwyr yn gallu diwallu anghenion eu teuluoedd a diogelu eu ffermydd rhag tywydd newidiol yn well. Gallwch chi ddewis y byd rydym am ei gael.

CRYNODEB

Mae bywyd a hanes Theobroma Cacao yn gêm chwarae rôl llawn hwyl, ond mae profiad ffermwyr coco ym mhedwar ban byd yn gywir. Ar hyn o bryd, mae llawer o ffermwyr ym mhedwar ban byd yn teimlo effeithiau tywydd eithafol, ac nid ydynt yn gallu fforddio gwneud newidiadau i ddiogelu ei hunain rhag y tywydd newidiol.

Dyma reswm arall pam mae angen talu ffermwyr yn deg am eu gwaith caled. Efallai nad ydym yn meddwl amdano bob tro, ond caiff effeithiau ein dewisiadau eu teimlo'n bell i ffrwd a'n cyfrifoldeb ni yw canfod o ble y daw ein bwyd.

Dyma yw [*neu 'yr wythnos nesaf yw' ac ati.']* Pythefnos Masnach Deg.